Cymdeithas Bob Owen

# Y Casglwr


Pob Peth Printiedig

Rhif 37 Tanysgrifiad Blynyddol i'r Ysgrifennydd £3 MAWRTH 1989

## GWASANAETH

AR DDECHRAU (i ni) blwyddyn arall hyderwn ein bod yn cyflenwi rhyw wasanaeth, pe na bai ond cofio am gymwynasau colledigion fel Abel Ffowc a Colin Gresham y penderfynodd y cyfryngau yng Nghymru eu llwyr anwybyddu. Ond yr ydym hefyd, fe hyderwn, wedi helpu i adnewyddu'r farchnad lyfrau ail-law yng Nghymru a hysbysiadau gwerthfawr Y Casglwr wedi bod o ddirfawr gymorth i safoni prisiau. Lle i ddiolch i hysbysebwyr a chyfranwyr (peidiwch a'n anghofio) ac, wrth gwrs, i'r darllenwyr. Ond dim croeso i ddrwg-dalwyr sy'n achosi llafur a chostau sy'n peryglu pawb. Felly, os yw'ch dyled tros flwyddyn (ac eithrio talwyr yn y Brifwyl), dyma gyfle olaf; neu — da bo'ch chi.

Ar y post mae'r bai os oedd copïau Rhagfyr yn cyrraedd rhai yn hwyr. Eleni daw rhifyn Rhagfyr atoch ar ddechrau'r mis, neu gynt, i osgoi Sion Corn a'i sbleddach.



*Wele ddirgelwch. Daeth y darlun olew yma o nenfwd cartre yn Eifionydd. Fe'i harwyddwyd fel hyn* ***Evan Hugh Parry, Pwllheli 1892****. Methwyd hyd yma â chael y manylion lleiaf am y Parry yma. Ond pwy yw y pregethwr? A beth yw arwyddocâd Pwlheli 1892. Nid yw'r darlun yn un o unrhyw gapel ym Mhwllheli ar ei wedd bresennol. A fedr rhywun daflu rhywfaint o oleuni?*

## SGANDAL LLYFRGELL Y BALA

GYDA marchnad Gymreig y llyfrau ail-law ar gynnydd a mwy a mwy o siopau newydd yn agor, mae hefyd yn mynd yn fwy a mwy anodd i adnewyddu'r stoc am fod yna leihad yn nifer y llyfrgelloedd preifat sy'n dod ar werth, a hen ffynhonnell, sef casgliadau gweinidogion yn cael ei phrysur ddihysbyddu.

Breuddwyd pob casglwr yw syrthio ar fargen fawr — ond bu rhai o'r fath yn nwylo casglwyr mawr fel Bob Owen a J.R. Morris, a llithrasant o'u dwylo.

Ond yn y Bala yn y chwedegau cynnar y bu bargen fawr y ganrif — a'r sgandal lyfryddol fwyaf. Ni adroddwyd y stori lawn hyd yma er y gwnaed pob ymgais yn y cyfnod — yn bennaf gan y Parch S.O. Tudor yn y *Goleuad* cyn rhoi caead swyddogol ar ei biser, ac yna, gyda John Eilian yn *Yr Herald Cymraeg* a'r *Caernarvon & Denbigh Herald.*

Mae'n wir yr aeth cyfran mewn dull digon aflêr, i'r Llyfrgell Genedlaethol ac mae'r casgliad amhrisiadwy o hen Feiblau yn Llyfrgell Coleg y Gogledd — ond ar gadwraeth (neu adnau) y maent yno, ac felly fe gredir yn dal yn eiddo i'r Hen Gorff.

Fe fu arwerthiant — ar bnawn Sadwrn a heb ei phriodol hysbysebu o gwbl. Oddi yno aeth llwyth helaeth iawn i'r Gelli Gandryll, ac un llawn cymaint i Dde Lloegr.

Ond bu'r prynwyr unigol yno cyn hynny yn dewis yn hael ac yn cael am y nesaf peth i ddim. Un Cymro adnabyddus wedi sicrhau chwech-ugain o gyfrolau da am wyth bunt — sef oddeutu dau swllt (hen bres) y copi, waeth beth oedd y gwerth. Erbyn heddiw mae'r casgliad hwnnw'n unig yn werth rhywle yng nghyffiniau'r llai na dwy fil o bunnau y sybrydir a gafwyd am yr holl lyfrgell werthfawr.

Os oes yna atgofion am y fargen a'r arwerthiant mawr a rhyfeddol hwn — mae'r *Casglwr* gennych i adrodd eich stori ynddo.